# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-15-08)

Dyddiad: 9 Gorffennaf 2008
Amser: 9:00am - 11:00am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mike German (Cadeirydd), Dwyrain De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Annette Stafford, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

John McElroy, Pennaeth Strategaeth Amgylcheddol, RWE n-power
Hans Jensen, Pennaeth Ymchwil a Datblygu, Cynhyrchu ac Ynni Adnewyddadwy, RWE n-power
David Porter, Prif Weithredwr, Cymdeithas y Cynhyrchwyr Trydan
Alex Lambie, Prif Weithredwr, Welsh Power Group Ltd
Keith Allot, Pennaeth Newid Hinsawdd, WWF-UK

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mick Bates a Karen Sinclair. Roedd Mike German yn bresennol yn y cyfarfod i ddirprwyo ar ran Mick Bates.

### Eitem 2: Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar gynhyrchu ynni Papur: SC(3)-15-08 (p1), p(2) a p(3)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd John McElroy, Hans Jensen, David Porter ac Alex Lambie i'r cyfarfod, a gwahoddodd hwy i gyflwyno'r prif bwyntiau yn eu papurau. Bu'r aelodau'n holi'r tystion. 2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig am y gwrthdaro rhwng y rheoliadau sy'n amcanu i fynd i'r afael â charbon deuocsid a rheoliadau sy'n ymwneud ag ansawdd aer. Cytunodd John McElroy ac Alex Lambie, ill dau, i ddarparu rhagor o wybodaeth am y graddfeydd amser a'r dechnoleg ar gyfer prosiectau llif llanw.

### Eitem 3: Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar gynhyrchu ynni Papur: SC(3)-15-08 (p4)

3.1 Croesawyd Keith Allott i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, a gwahoddwyd ef i gyflwyno'r prif bwyntiau yn ei adroddiad ar y testun 'Osgoi'r Ddalfa' ('Evading Capture'). Holwyd y tyst gan yr aelodau. 3.2 Gofynnodd yr aelodau i'r clercod ddosbarthu rhagor o wybodaeth am y Cyfarwyddebau Ewropeaidd a'r trafodaethau perthnasol yn Senedd Ewrop ac yn y Pwyllgor Ewropeaidd blaenorol ar ddal a storio carbon. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Eluned Morgan ASE i gyfarfod pellach ar y mater hwn, ac i wahodd Cris Tomos o brosiect Cymuned Hermon i sesiwn dystiolaeth yn y dyfodol ar ynni adnewyddadwy cymunedol.

### Eitem 4: Papurau i'w nodi: SC(3)-15-08 (p5) a (p6)

4.1 Oherwydd diffyg amser, gohiriwyd Eitem 4 tan y cyfarfod nesaf.